

Cyflwyniad

1. Mae'r polisi hwn yn berthnasol waeth pa mor hir yw hyd y gwasanaeth neu'r contract:
 - i gyflogeion CCAUC;
 - i staff dros dro neu gontract a ddefnyddir gan CCAUC, gan gynnwys sefyllfa lle bo'u gwasanaethau wedi'u rhoi ar gontract drwy drydydd parti;
 - i rai ar secondiad, lle bo hynny wedi'i nodi yn eu contract.

Datganiad Polisi

2. Nodau'r polisi hwn o ran y Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998 (PIDA) a'r Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (ERRA) yw annog staff i adrodd materion priodol sy'n destun pryder, a ystyrir ganddynt yn faterion er lles y cyhoedd, ynghylch achosion o gamymddwyn difrifol, a elwir yn Ddatgeliadau Cymwys, fel y'u diffinnir yn y gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban. Dylid adrodd am ddigwyddiadau heb ofni dial neu erledigaeth, gan amddiffyn staff a CCAUC rhag honiadau di-sail a maleisus.
3. Mae CCAUC yn annog cyflogeion i adrodd unrhyw bryderon, naill ai o fewn y gweithle neu'n allanol, ynghylch perygl, risg, camymddwyn neu gamwedd sy'n effeithio ar eraill. Dylai cyflogeion fynegi eu pryderon drwy'r sianelau priodol, a nodir yn y polisi hwn ac yn y gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban. Os na fydd sail i'r honiad, ni chymerir camau disgyblu yn erbyn cyflogeion, ac ni fyddant yn dioddef unrhyw niwed arall oni phofir bod yr honiad naill ai wedi'i wneud yn anonest neu lle bo'r polisi wedi cael ei gamddefnyddio'n fwriadol.
4. Bydd unrhyw gyflogai sy'n adrodd am amheumon o ddrwgweithredu yn derbyn yr amddiffyniad a'r gefnogaeth a ganlyn:
 - Ni fydd cyflogai yn wynebu camau disgyblu nac yn dioddef unrhyw niwed arall;
 - Bydd CCAUC yn cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn y cyflogai rhag unrhyw niwed personol fel aflonyddwch neu erledigaeth;
 - os bydd cyflogai yn gofyn am gael cadw ei fanylion adnabod yn gyfrinachol, bydd CCAUC yn ymdrechu i'r eithaf i sicrhau hynny, hyd y bo hynny o fewn rheolaeth CCAUC, ar yr amod bod hynny'n briodol ac yn gyfreithiol, a bod modd cynnal ymchwiliad priodol i'r achos a'i ddatrys yn briodol heb ddatgelu manylion adnabod y cyflogai; a,
 - bydd CCAUC yn hysbysu'r cyflogai ynghylch yr ymdriniaeth â'r mater.
5. Nid yw CCAUC yn goddef unrhyw ddial yn erbyn cyflogai am ei fod wedi mynegi pryder o dan y polisi hwn, a bydd yn trin unrhyw achos felly o ddial fel mater disgyblu a allai arwain at ddiswyddo. Ni roddir y sicrwydd hwn i rai sy'n mynegi pryder yn faleisus gan wybod nad yw'r hyn y maent yn ei honni yn wir.
6. Bydd y Prif Weithredwr yn cael gwybod am bob achos chwythu'r chwiban, onid yw'r achosion hynny'n gysylltiedig â'r Prif Weithredwr (yn yr achos hwnnw, Cadeirydd y Cyngor fydd yn cael gwybod), a bydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yr ymchwiliad ac ynghylch datrys y pryder.
7. Mae CCAUC wedi ymroi i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn ymdrin ag unrhyw ddrwgweithredu a ddatgelir.

8. Ni cheir defnyddio'r polisi hwn yn sail ar gyfer cynhyrchu, cylchredeg neu brofi materion neu straeon di-sail sydd y tu hwnt i gwmpas Datgeliad Cymwys neilltuol. DS Bydd yn rhaid adrodd am unrhyw bryderon sy'n gysylltiedig â statws cyflogaeth cyflogai ei hun o dan y Polisi Cwynion a'i weithdrefnau cysylltiedig, yn hytrach nag o dan y Polisi Chwythu'r Chwiban hwn.
9. Pan ganfyddir bod honiad yn anghywir, neu os a cheir casgliad pendant yn ei gylch, bydd CCAUC yn cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn unrhyw unigolyn a gysylltwyd â'r honiad rhag canlyniadau andwyol.

Cyfrifoldebau

10. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am:
 - (i) adrodd am unrhyw ddrwgweithred yn unol â'r polisi hwn a'i weithdrefnau ategol;
 - (ii) cydymffurfio ag unrhyw gais i gynorthwyo gydag unrhyw ymchwiliad neu fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod er mwyn datrys achos chwythu'r chwiban;
 - (iii) cynnal cyfrinachedd drwy beidio trafod unrhyw achos chwythu'r chwiban ag unrhyw un ar wahân i rai ag awdurdod i ymdrin â'r achos.
11. Mae'r holl Gyfarwyddwyr/Benaethiaid Tîm yn gyfrifol am:
 - (i) sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban hwn a'i weithdrefnau ategol, ac yn gwybod sut i fynegi pryder;
 - (ii) sicrhau, os datgelir pryder iddynt, y ceir ymdriniaeth ddifrifol, brydlon a thrylwyr â'r pryder, a'u bod yn cadw at y gweithdrefnau ategol sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn;
 - (iii) cynorthwyo staff sy'n mynegi pryder a rhai a allai fod yn destun, neu'n ymwneud ag achos chwythu'r chwiban nes bo'r broses wedi'i chwblhau.
12. Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am gynnal a diweddarau Polisi Chwythu'r Chwiban a'i weithdrefnau ategol bob tair blynedd, neu cyn hynny os ceir newidiadau deddfwriaethol. Bydd yn ofynnol i Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol gyflwyno adroddiad blynyddol ar weithrediad y polisi gerbron y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor AD.

Dogfennau ategol

13. Cefnogir Polisi Chwythu'r Chwiban gan y canlynol:
 - Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban
 - Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
 - Polisi Cwyno a Disgyblu
 - Gweithdrefnau Cwyno
 - Gweithdrefnau Disgyblu
 - Polisi Twyll a Llwgrwobrwyo

- Gweithdrefnau Twyll a Llwgwobrwyo

Fersiwn	Dyddiad	Disgrifiad
1.0	09/12/03	Polisi wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol
1.1	12/04/05	Diweddaru'r polisi drwy'r rhwydwaith HCO - awdurdodi gan Jo Thorne
2.0	Chwefror 08	Diweddaru'r polisi i adlewyrchu DT, y canllaw arddull a'r AEC.
3.0	Tach 08	Adolygu'r polisi, ar gais y Cadeirydd. Y Swyddog Cyfrifyddu wedi cyflwyno diwygiadau i'r Prif Weithredwr
3.1	Awst 09	Diwygio'r polisi i adlewyrchu polisi chwythu'r chwiban Aelodau'r Cyngor.
3.2	Tach 09	Diwygiadau yn dilyn AEC
3.3	Mai 13	Diwygiadau wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol i adlewyrchu newidiadau DT ym mis Hydref 12
4.0	Hydref 13	Adolygu gan y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, y Rheolwr AD a'r Rheolwr Cyflogres yn rhan o adolygiad CCAUC o'i Bolisiau a'i Weithdrefnau.
4.1	Chwefror 14	Adolygu gan Bennaeth y Gwasanaethau Corfforaethol i ystyried ERRA 2013, PAS 1998:2008 Cod Ymarfer Trefniadau Chwythu'r Chwiban y BSI ac Adroddiad Comisiwn Chwythu'r Chwiban Tachwedd 2013 ar Effeithiolrwydd Trefniadau Effeithiol ar gyfer Chwythu'r Chwiban yn y Gweithle yn y DU.
4.2	Ebrill 14	Diweddaru'r polisi yn dilyn adolygiad gan y Bwrdd Rheoli ar 24 Mawrth 14.
4.3	Mai 14	Diweddaru'r polisi yn dilyn adolygiad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol
4.4	Hydref 14	Diweddaru yn sgil adolygiad cyffredinol CCAUC o'r holl bolisiau a gweithdrefnau
4.5	Hydref 17	Adolygu gan y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol i ystyried enghreifftiau o arfer gorau yn y sector cyhoeddus.
4.6	Tach 17	Adolygu gan y Bwrdd Rheoli ar 6 Tachwedd 17.
4.7	Rhag 17	Cyflwyno i'r Pwyllgor AD, a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg